Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Puddleducks All Day Care

**Ysgol Trefnant**
**Henllan Road**
**Trefnant**
**LL3 0DQ**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Puddleducks All Day Care

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Puddleducks All Day Care |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Suzanne Van Loock |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Suzanne Van Loock |
| Person â gofal | Nia Bates |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2 i 11 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 21 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 7 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener o 7.45am hyd 5.30pm |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma arolygiad cyntaf y lleoliad. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 15/07/2015 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 20/06/2023 |
| Ychydig iawn o'r plant sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd. | |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Digonol** |
| **Yr amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfuwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Gwella'r cydbwysedd rhwng arsylwi ac ymyrryd yn briodol yn chwarae'r plant

A2 Datblygu systemau asesu i gefnogi ymarferwyr i fodloni anghenion unigol pob plentyn

A3 Sicrhau y gall yr holl staff fanteisio ar ddysgu proffesiynol addas sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau gwella'r lleoliad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae gan blant lais cryf yn y lleoliad. Yn ystod y rhan fwyaf o'r sesiwn, mae plant o bob oed yn gwneud dewisiadau yn ymwneud â'u chwarae. Maent yn gwneud dewisiadau bwriadus i symud o gwmpas yr ystafell chwarae'n hyderus. Er enghraifft, maent yn mwynhau dewis cerbydau i chwarae ar y fferm yn yr hambwrdd plastig ac adeiladu tŵr â'r blociau pren. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gyfathrebwyr hyderus gan eu bod yn gwybod y bydd ymarferwyr yn gwrando arnynt ac yn ymateb. Mae rhai ohonynt yn mynegi eu hunain yn glir gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion. Er enghraifft, maent yn annog ymarferwyr i edrych ar yr hyn y buont yn ei wneud. Mae eraill yn mynegi'r hyn sydd ei eisiau arnynt gan ddefnyddio ciwiau di-eiriau, fel pwyntio neu ddangos pethau. Er enghraifft, maent yn dod â llyfrau at ymarferwyr iddynt eu darllen. Mae plant nad ydynt yn dymuno cymryd rhan mewn gweithgaredd grŵp yn dewis pethau eraill i'w gwneud yn hapus.

Mae plant yn hapus ac wedi ymgartrefu. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyrraedd y lleoliad yn barod i ddechrau eu diwrnod ac yn ymdopi'n dda wrth iddynt wahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr. Mae'r ychydig ohonynt sy'n gofidio yn ymgartrefu mewn byr amser ar ôl cael sicrwydd gan ymarferwyr. Mae plant yn meithrin perthynas gynnes a chlòs ag ymarferwyr, sy'n cael effaith fuddiol ar eu lles. Caiff plant gysur a sicrwydd addfwyn, yn ôl yr angen. Er enghraifft, maent yn gofyn i gael eu cofleidio pan fyddant ychydig yn ansicr am bobl anghyfarwydd yn yr ystafell.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymddwyn yn dda, yn unol â'u hoed a'u cam datblygu. Er enghraifft, mae plant yn cydweithio'n dda â'i gilydd i lenwi bwcedi â thywod, gydag un ohonynt yn dal bwced tra mae'r llall yn ei lenwi. Caiff plant eu hatgoffa i fod yn garedig i'w gilydd a chymryd tro, yn ôl yr angen. Mae plant yn gwybod am arferion y dydd ac yn eu dilyn. Er enghraifft, maent yn eistedd i lawr ar gyfer amser cofrestru ac amser grŵp ac yn helpu i dacluso adeg amser cinio.

Mae'r plant yn weithgar ac yn mwynhau cyfleoedd i chwarae a dysgu. Mae ganddynt ddiddordeb yn y gweithgareddau a'r profiadau sydd ar gael iddynt ac yn ymgysylltu â nhw. Maent yn chwilfrydig wrth iddynt symud yn rhwydd o un gweithgaredd i'r llall. Mae'r plant yn dangos mwynhad a chyffro yn y pethau a wnânt. Er enghraifft, maent yn gwichian â llawenydd wrth iddynt redeg ar ôl ei gilydd ar y buarth y tu allan neu'n curo'u dwylo ac yn bloeddio pan fydd eu tŵr yn disgyn. O ganlyniad, mae'r plant yn dysgu i ganolbwyntio a dyfalbarhau am gyfnodau priodol ac mae llawer ohonynt yn treulio cyfnodau estynedig yn cymryd rhan mewn tasgau maent wedi'u dewis eu hunain.

Trwy symud rhwng gweithgareddau a dilyn eu diddordebau eu hunain, mae plant yn magu hyder wrth wneud penderfyniadau ac yn gofyn am gymorth pan fydd ei angen arnynt. At ei gilydd, mae'r plant yn datblygu annibyniaeth a medrau hunangymorth yn llwyddiannus, fel golchi eu dwylo, torri eu ffrwythau ac arllwys eu diodydd eu hunain o'r jwg.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o sut i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith yn gyson ac yn hyderus o ran eu rolau a'u cyfrifoldebau. Maent wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldeb i ddiogelu plant rhag niwed, gan gynnwys sut i ymateb i unrhyw bryderon yn ymwneud ag amddiffyn plant. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

At ei gilydd, mae ymarferwyr yn rhoi polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar waith yn effeithiol yn ymwneud â hylendid, iechyd a diogelwch. Mae pob ymarferydd wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf paediatrig addas. Mae ymarferwyr yn goruchwylio'r plant yn dda ac yn dilyn gweithdrefnau priodol o ran damweiniau, digwyddiadau a rhoi meddyginiaeth. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw i'r plant, gan gynnig prydau a byrbrydau iach a llaeth neu ddŵr i yfed. Mae ymarferwyr yn rheoli alergeddau plant yn effeithiol ac yn bodloni anghenion iechyd penodol plant unigol yn hyderus.

Mae ymarferwyr yn ofalgar ac yn gefnogol iawn. Maent yn cyfathrebu'n barchus gyda'r plant a'i gilydd, gan greu amgylchedd tawel a hamddenol. Maent yn ddelfryd

ymddwyn cadarnhaol i'r plant ac yn rhyngweithio'n fwriadus â nhw wrth iddynt chwarae.

Mae gan ymarferwyr ymagwedd gadarnhaol tuag at reoli ymddygiad y plant, gan ddilyn polisi'r lleoliad yn effeithiol. Maent yn defnyddio technegau cadarnhaol fel canmol, tynnu sylw ac esbonio yn ôl yr angen. Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda a gallant esbonio pan fydd plentyn yn ymddwyn yn annhebyg iddo'i hun a'r rheswm posibl am hynny, gan ddangos empathi a sicrwydd.

Mae ymarferwyr yn bodloni anghenion unigol a datblygiadol pob plentyn yn llwyddiannus, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, trwy weithgareddau a phrofiadau maent yn eu cynllunio a'u darparu. Maent yn adnabod plant y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt o oed cynnar ac yn ceisio cymorth a chyngor gan asiantaethau allanol yn briodol, fel yr awdurdod lleol a therapyddion iaith a lleferydd. O ganlyniad, mae pob plentyn yn gwneud cynnydd da.

Mae ymarferwyr yn ymatebol i'r plant ac yn ymuno â'u chwarae i gefnogi dysgu. Fodd bynnag, mae oedolion yn ymyrryd yn chwarae'r plant yn rhy aml ac, o ganlyniad, ni chaiff y plant eu hannog i ddatrys problemau'n annibynnol bob tro. Mae ymarferwyr yn darparu adnoddau priodol a gweithgareddau dewis rhydd sy'n hyrwyddo datblygiad cyffredinol y plant. Mae ymarferwyr yn defnyddio ychydig o Gymraeg yn ystod y dydd i gyfarch a rhoi gorchmynion sylfaenol, yn bennaf.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Digonol**

Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o'r holl blant ac, o ganlyniad, mae plant yn dysgu sut i uniaethu â phobl eraill a chymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd. Mae pob ymarferydd yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch ac yn hyrwyddo egwyddorion sy'n helpu plant i wahaniaethu rhwng da a drwg. Maent yn annog plant i feithrin agweddau cadarnhaol tuag at ei gilydd ac yn dechrau datblygu hunanddisgyblaeth. Mae ymarferwyr yn holi'r plant yn dda i herio a chefnogi eu dysgu ac, o ganlyniad, maent yn ddelfryd ymddwyn da ar gyfer iaith. Er enghraifft, maent yn annog y plant i ddisgrifio'r toes fel gludiog neu lyfn. Maent yn modelu gramadeg cywir ac yn achub ar gyfleoedd i ymestyn geirfa'r plant wrth iddynt chwarae. Mae ymarferwyr yn defnyddio storïau ag iaith arwyddion i helpu'r holl blant i ddatblygu eu medrau cyfathrebu.

Mae gan y rhan fwyaf o ymarferwyr wybodaeth addas am ddatblygiad plant ac maent yn deall sut i gynorthwyo a herio plant, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae ymarferwyr yn ddelfryd ymddwyn da ac yn rhyngweithio'n rhwydd â'r plant wrth iddynt chwarae. Fodd bynnag, maent yn dueddol o orgyfarwyddo'r chwarae hwn ac nid ydynt yn cymryd cam yn ôl bob tro ac yn arsylwi'r plant. O ganlyniad, nid ydynt yn sicrhau bod pob plentyn yn datblygu medrau datrys problemau ac archwilio yn ddigon da.

Mae ymarferwyr yn myfyrio ar eu cwricwlwm ac yn ei addasu'n addas ac yn dechrau ystyried egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru. Mae rhai ymarferwyr yn dechrau ystyried sut i ddefnyddio safbwyntiau'r plant wrth gynllunio. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i gynllunio gweithgareddau wedi'u seilio ar ddiddordebau'r plant. Mae ymarferwyr yn ymwybodol o'r cynnydd a wna'r plant ond, at ei gilydd, mae

systemau'r lleoliad ar gyfer cofnodi, monitro ac adrodd ar gynnydd ond megis dechrau cael eu datblygu, ac nid ydynt yn nodi gweithgareddau addas ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar ddysgu blaenorol y plant bob tro. Mae gan y lleoliad gyfarpar addas i ddatblygu medrau'r plant. Mae ystod eang o gyfryngau i ddatblygu medrau gwneud marciau ac ysgrifennu cynnar dan do ac yn yr awyr agored. Mae adnoddau i ddatblygu medrau mathemategol cynnar ar gael yn rhwydd. Er enghraifft, mae plant yn defnyddio offer mesur i greu cwrs rhwystrau o focsys cardbord. Mae adnoddau'n cynnwys delweddau cadarnhaol o amrywiaeth ac mae'r lleoliad yn defnyddio dathliadau ac achlysuron arbennig i gyflwyno rhai o'r bwydydd ac arteffactau traddodiadol o bedwar ban byd. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau dysgu am Dde Affrica a Sbaen. Mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i blant glywed a dysgu'r Gymraeg trwy rannu storïau a thrafod y tywydd. Mae cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer gweithgareddau paentio a chrefftau rhydd, felly nid yw'r plant yn datblygu eu medrau creadigol yn ddigon da.

## Yr amgylchedd: Digonol

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylcheddau dan do ac awyr agored yn ddiogel ac yn sicr. Mae asesiadau risg addas ar waith i gadw plant yn ddiogel a chaiff gwiriadau diogelwch eu cynnal yn flynyddol. Er bod yr ysgol yn cynnal ymarferion tân yn rheolaidd, nid yw'r cofnodion yn dangos bod y lleoliad yn rhan ohonynt. Mae toiledau a chyfleusterau addas ar gyfer newid cewynnau i sicrhau preifatrwydd ac urddas y plant.

Mae'r ystafell chwarae'n groesawgar, yn olau ac wedi'i threfnu'n dda. Mae'n cynnig amgylchedd addas i'r plant chwarae a dysgu. Mae arddangosiadau wal o deuluoedd ac anifeiliaid anwes yn rhoi ymdeimlad o berthyn i'r plant. Mae digon o le i'r plant chwarae yn ogystal ag ymgynnull fel grŵp neu orffwys ac ymlacio. Gall y plant fanteisio'n annibynnol ar adnoddau ac offer diddorol ac sy'n briodol yn ddatblygiadol.

Gall y plant fanteisio ar ddwy ardal chwarae awyr agored ar wahân sy'n amlapio'r adeilad. Yn gyffredinol, gall y plant ddefnyddio'r buarth a'r ardal laswelltog y tu ôl i'r adeilad yn rheolaidd pan nad yw plant yr ysgol yn eu defnyddio. Fodd bynnag, ni chaiff hyn ei fonitro'n gyson i sicrhau mai plant y lleoliad yn unig sy'n cael defnyddio'r ardaloedd hyn sy'n cael eu rhannu yn ystod eu hamser dynodedig. Mae gan y lleoliad ardal benodedig wrth ochr yr adeilad sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd i gynnwys ardaloedd dysgu.

Mae arweinwyr yn darparu dodrefn ac adnoddau o ansawdd da sy'n briodol ar gyfer oedran y plant. Maent yn annog dysgu gweithredol trwy adnoddau fel bwrdd golau, blociau, tywod a chwarae dŵr, sy'n annog plant i arbrofi a bod yn ddychmygus. Mae'r adnoddau'n cynnwys llyfrau a doliau addas sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac amrywiaeth.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn sicrhau bod adnoddau ac offer yn lân, yn cael eu cynnal a chadw'n dda ac yn briodol ar gyfer y plant yn y lleoliad.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol

Mae gan y lleoliad ddatganiad clir o ddiben, sy'n sicrhau bod rhieni'n wybodus am yr hyn y gall y lleoliad ei gynnig. Mae ethos da ymhlith y staff ac mae pob un ohonynt

wedi ymrwymo i nodau'r lleoliad. Mae gan yr ymarferwyr cyfredol gymwysterau perthnasol a phriodol a phrofiad o weithio â phlant ifanc. O ganlyniad, caiff plant eu meithrin yn dda mewn amgylchedd cynhwysol a chroesawgar.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod ystod o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith i sicrhau bod y lleoliad yn cydymffurfio â'r rheoliadau ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae gan arweinwyr ymwybyddiaeth o gryfderau'r lleoliad ac maent yn ystyried safbwyntiau staff, rhieni a gofalwyr, plant a rhanddeiliaid eraill. Mae ap ar-lein yn helpu i roi gwybod i rieni a gofalwyr am beth mae eu plant yn ei ddysgu. Mae arweinwyr wedi llunio cynlluniau i werthuso ansawdd y lleoliad ac maent yn pennu camau gweithredu priodol i gyflawni'r gwelliannau dymunol. Er enghraifft, mae'r lleoliad wedi cynyddu'r detholiad o offer a deunyddiau mathemategol, fel cloriannau, tapiau mesur, arian, siapiau, patrymau ac offer dilyniannu.

Mae arweinwyr yn cynnal arfarniadau o staff yn unol â'r gofynion. Fodd bynnag, nid yw targedau ymarferwyr yn cysylltu'n ddigon clir â blaenoriaethau gwella'r lleoliad ac, o ganlyniad, nid oes gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o'r hyn y mae'r lleoliad yn gweithio i'w wella. Er bod arweinydd y lleoliad yn mynychu hyfforddiant yn rheolaidd, nid oes digon o gyfleoedd i bob un o'r ymarferwyr gael dysgu proffesiynol i'w cynorthwyo i ddeall datblygiadau diweddar ym myd addysg.

Mae arweinwyr yn defnyddio'r grantiau sydd ar gael yn effeithiol trwy brynu offer hygyrch newydd i wella'r amgylchedd dan do. Mae adnoddau newydd wedi gwella ansawdd yr amgylchedd dan do. Er enghraifft, mae arweinwyr wedi prynu blwch golau i helpu plant i archwilio deunyddiau a lliwiau gwahanol.

Mae cyswllt da ag asiantaethau allanol, sy'n sicrhau bod darpariaeth i blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn addas. Mae'r lleoliad wedi'i leoli yn yr ysgol gynradd leol ac mae arweinwyr yn manteisio ar hyn trwy hwyluso cyfathrebu rhwng y staff i gefnogi pontio'n effeithiol. Mae hyn yn galluogi plant i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg yn rhwydd. Mae gan y lleoliad gysylltiadau cryf â'r eglwys leol ac mae'r plant yn mynychu sesiynau 'Bears and Prayers' bob mis, sy'n cefnogi eu datblygiad ysbrydol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/08/2023

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I’w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 22 Awst 2023